

GRŴP YMGYNGHOROL ANNIBYNNOL
COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
COFNODION CYFARFOD A GYNHALIUYD AM
2 O'R GLOCH DDYDD LLUN 11 MAWRTH 2013

1. Yn bresennol

| | |
|------------------------|---------------------------------------|
| Jackie Roberts (Chair) | Heddlu Dyfed-Powys |
| Carl Langley | Heddlu Dyfed-Powys |
| Helen Morgan-Howard | Heddlu Dyfed-Powys |
| Claire Godden | SCHTh |
| MB | Ymgynghorydd Annibynnol |
| BH | Ymgynghorydd Annibynnol |
| JJ | Ymgynghorydd Annibynnol |
| NM | Ymgynghorydd Annibynnol |
| DT | Ymgynghorydd Annibynnol |
| NC | Ymgynghorydd Annibynnol |
| HL | Ymgynghorydd Annibynnol |
| AH | Ymgynghorydd Annibynnol |
| NH | Ymgynghorydd Annibynnol |
| PS | Ymgynghorydd Annibynnol |
| Paul Lewis | Cyfieithydd (Iaith Arwyddion Prydain) |
| Fiona Morgan | Cyfieithydd (Iaith Arwyddion Prydain) |

Ymddiheuriadau

| | |
|----|-------------------------|
| SR | Ymgynghorydd Annibynnol |
|----|-------------------------|

Cyflwynodd Mr. Carl Langley, y Prif Gwnstabl Cynorthwyol, ei hun i'r grŵp. Cadarnhaodd Mr. Langley mai ei fwriad ef oedd mynychu cyfarfodydd y Grŵp yn y dyfodol, yn amodol ar ymrwymïadau gweithrediadol. Dywedodd ei fod wedi gweithio'n rhagweithiol o fewn ei heddlu blaenorol gyda'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol a theimlai bod y Grŵp yn ddefnyddiol o ran ychwanegu gwerth i ddigwyddiadau argyfyngus pan fyddant yn digwydd.

Yna, gadawodd Mr. Langley y cyfarfod oherwydd ymrwymïad blaenorol.

2. Datganiadau o Ddiddordeb

Dywedodd BH ei bod hi wedi ei phenodi'n Gydlynnydd Gwirfoddolwyr yr Heddlu. Dymunodd y Cadeirydd yn dda iddi yn ei rôl.

3. Materion yn Codi

Eitem 3 Y Swyddog Amrywiaeth i gynnal ymholiadau ynglŷn â dichonolrwydd cyflwyno gwasanaeth neges destun ar gyfer riportio materion difrys

Dywedodd Helen Morgan-Howard bod gwaith wedi'i wneud er mwyn archwilio'r defnydd o'r gwasanaeth text relay. Derbyniwyd adroddiadau da gan y rhai sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw. Archwiliwyd galwadau a dderbyniwyd gan y Ganolfan Gyfathrebu. Adroddwyd nad oedd cyllid ar gael ar hyn o bryd ar gyfer ariannu gwasanaeth neges destun penodol ar gyfer y rhai sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw, ond mae'r posibilrwydd dal yn cael ei ystyried. **Camau Gweithredu: Helen Morgan-Howard**

Cafwyd trafodaeth ac awgrymodd MB y dylid mynd at fyfyrwyr prifysgol er mwyn canfod a fyddai modd iddynt ddatblygu ap bychan ar gyfer ffonau ayyb. **Camau Gweithredu: Helen Morgan-Howard i edrych mewn i hyn.**

Eitem 5 Seminar Troseddau Casineb ar 25 Hydref 2012. Bellach, mae 82 Swyddog Troseddau Casineb wedi'u hyfforddi ledled yr ardal. Yn bennaf, maent

5. Diweddariad ar newidiadau i lywodraethu, Rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Diweddarwyd yr aelodau gan Claire Godden, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu:

- Cychwynnodd Mr. Christopher Salmon, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, ei swydd ar 22 Tachwedd 2012. Tair tasg fawr i'w cyflawni cyn diwedd y flwyddyn ariannol (31 Mawrth, 2013):
 - Gosod elfen yr heddlu o'r Dreth Gyngor.
 - Y gyllideb ar gyfer yr Heddlu.

(Mae'r Comisiynydd yn llwyr ymwybodol o'r pwysau ariannol, a sefydlodd lefel praesept a oedd yn cynnwys cynnydd o 3.9% yn y swm a delir ar gyfer y Dreth Gyngor.)

- Y Cynllun Heddlu a Throseddu.

Dosbarthwyd y Cynllun i aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol ac fe'u gwahoddiwyd i roi adborth. Mae'r adborth yn cael ei ystyried ar hyn o bryd ar gyfer diwygio'r Cynllun, a fydd yn cael ei gyhoeddi erbyn 31 Mawrth 2013. O fewn y Cynllun, mae'r Comisiynydd wedi nodi ei flaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf, sy'n mynd y tu hwnt i'w tymor mewn swydd, ond roedd yn ofynnol iddo yn ôl y gyfraith i gyhoeddi cynllun pum mlynedd. Mae amcanion y Comisiynydd yn cynnwys:

- Atal a mynd i'r afael â throseddu;
- Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed;
- Dwyn pobl i gyfiawnder;
- Gwella mynediad i wasanaethau'r heddlu
- Sicrhau safonau proffesiynoldeb uchel;
- Gwario'n ddoeth.

Mae'r Comisiynydd bellach wedi penodi Prif Gwnstabl parhaol. Bydd Mr. Simon Prince yn cychwyn ar ei swydd ar 1 Ebrill, 2013. Ar hyn o bryd, Mr. Prince yw Prif Gwnstabl Cynorthwyol Heddlu Gwent, lle y mae wedi gwasanaethu ers 20 blynedd. Cyn y cyfweiliadau ar gyfer Prif Gwnstabl newydd, gwahoddiwyd aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol i gyfrannu cwestiynau i'r Panel er mwyn iddynt eu hystyried yn y cyfweiliadau, ac roedd y Comisiynydd wedi mynegi ei ddiolch i'r aelodau am eu cyfraniadau. Dywedodd Claire Godden bod y cwestiynau a ddefnyddiwyd i'w gweld ar wefan Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Diolchodd JJ y Prif Gwnstabl Dros Dro Jackie Roberts am ei gwaith gyda'r Grŵp.

Mae gan y Comisiynydd nifer o goliau allweddol ar gyfer y dyfodol sy'n cynnwys strwythur llywodraethu da er mwyn arolygu plismona, ac mae'r Comisiynydd yn edrych ar sefydlu sefydliad sengl â Bwrdd Rheoli sengl a fydd â rheolaeth glir dros gyllid a'r gallu i ddirprwyo adnoddau, yn ogystal ag atebolrwydd uniongyrchol i'r cyhoedd. Bydd y Bwrdd yn gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer yr heddlu a gwasanaethau diogelu'r cyhoedd fel cyfanrwydd.

Gôl allweddol arall i'r Comisiynydd yw edrych ar adolygu'r trefniadau partneriaeth sy'n bodoli. Mae'n awyddus i geisio gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio'n dda er mwyn gweld a oes cyfleoedd pellach ar gyfer gweithio'n well gydag asiantaethau partner.

Mewn perthynas â'r Panel Heddlu a Throsedd, roedd pum aelod o'r hen Awdurdod Heddlu wedi'u penodi i'r Panel, ac roedd o leiaf dau aelod o bob sir wedi'u penodi. Yn ogystal, roedd dau aelod annibynnol ychwanegol. Cyngor Sir Caerfyrddin a arweiniodd sefydlu'r Panel. Mae'r Panel cyfredol yn cynnwys deuddeg aelod. Esboniodd y Prif Gwnstabl Dros Dro Roberts fod rôl y Panel yn dra wahanol i'r Awdurdod gan nad oedd yn ymwneud â chraffu ar yr heddlu, ond yn hytrach craffu ar waith y Comisiynydd a darparu swyddogaeth gefnogi ar gyfer rôl y Comisiynydd.

Cafwyd trafodaeth, ac roedd yr aelodau'n poeni am y gwaith ychwanegol y mae swyddogion heddlu'n gwneud oherwydd toriadau mewn cyllideb, ac er y bydd y Prif Gwnstabl newydd a'r Comisiynydd yn gweithio'n agos â'i gilydd, dywedodd y Prif Gwnstabl Dros Dro Roberts bod gwahaniaeth clir rhwng y rôl llywodraethu, sef rôl y Comisiynydd, a Chyflwyno Gwasanaethau, sef rôl y Prif Gwnstabl, ond bydd y ddau ohonynt yn gweithio er mwyn cyflawni gwell diogelwch cymunedol a darparu'r gwasanaeth gorau posibl o fewn y cyllid sydd ar gael.

Gofynnwyd cwestiwn mewn perthynas â chost rhedeg Swyddfa'r Comisiynydd. Er nad oedd ganddi'r union ffigurau wrth law, dywedodd Claire Godden y byddai'r gost cryn dipyn yn llai na'r hen Awdurdod Heddlu.

6. Diweddariad ar flaenoriaethau o gwmpas Iechyd Meddwl.

Sefydlwyd y Grŵp Strategol Iechyd Meddwl yn 2012. Sefydlwyd y Grŵp oherwydd bod swyddogion yn treulio fwyfwy o amser ar ddigwyddiadau lle y mae pobl yn dioddef materion iechyd meddwl. Pwrpas y Grŵp, a gadeirir gan y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Langley, yw adnabod a mapio pob agwedd o iechyd meddwl sydd angen eu hystyried o bersbectif gweithrediadol a sefydliadol a sut y mae'r digwyddiadau hyn yn effeithio ar les swyddogion. Hysbyswyd aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol y byddant yn cael eu holi am gyngor ar faterion yn y

dyfodol ac y byddai mwy o ymgynghorwyr yn cael eu recriwtio i'r Grŵp sydd â gwybodaeth arbenigol yn y maes iechyd meddwl. Holodd Helen Morgan-Howard yr aelodau os oedden nhw'n gwybod am unrhyw un a fyddai â diddordeb mewn bod yn ymgynghorydd annibynnol, ac yn eu tro, bod yn rhan o'r Grŵp Strategol Iechyd Meddwl.

Mae'r Grŵp Strategol Iechyd Meddwl yn cynnwys y canlynol:

| | |
|----------------------------|--|
| Cadeirydd | Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Carl Langley |
| Arweinydd Gweithrediadol | Y Ditectif Uwch-arolygydd Andy John |
| Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | Helen Morgan-Howard |

Camau Gweithredu: Gwahoddwyd DT i fod yn aelod o'r Grŵp Strategol Iechyd Meddwl ac adrodd yn ôl i'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol.

Diben y grŵp fydd ymchwilio i ddigwyddiadau sy'n digwydd a chanfod faint o amser swyddogion a dreulir ar ddigwyddiadau iechyd meddwl.

Dywedodd y Prif Gwnstabl Dros Dro Roberts bod y Prif Gwnstabiliaid yng Nghymru'n cwrdd â'r Gweinidog Iechyd ar sail chwarterol oherwydd problemau a nodwyd yn Nyfed-Powys ac ers 2010, mae digwyddiadau hunan niweidio wedi cynyddu o 41%.

7. Grŵp Ymgynghorol Annibynnol Pobl Ifainc – model arfaethedig

Yn hytrach na sefydlu Grŵp Ymgynghorol Annibynnol Pobl Ifainc, dywedodd Helen Morgan-Howard ei bod hi'n sefydlu rhaglen dreigl o ddigwyddiadau Gwybodaeth ac Ymgysylltu ar gyfer pobl ifainc. Nod hirdymor y digwyddiadau yw cynyddu hyder pobl ifainc yn yr heddlu a'u cael nhw i ymgysylltu â hwy. Cyfeiriodd Helen at ddigwyddiad diweddar lle y daethpwyd â phobl ifainc i'r Pencadlys. Ymwelodd y bobl ifainc hyn â nifer o feysydd diddorol, gan gynnwys yr adran gŵn ac olion bysedd. Teimlwyd y byddai hyn yn well ffordd o ymgysylltu â phobl ifainc yn y dyfodol yn hytrach na thrwy gyfarfod ffurfiol. Bydd y digwyddiadau ymgynghori hyn yn canolbwyntio ar faterion megis Stopio a Chwilio a materion amrywiaeth eraill, a gofynnodd Helen i'r aelodau os oedden nhw'n gysylltiedig â grwpiau o bobl ifainc a allai ystyried y digwyddiad hwn yn werth chweil. Yr aelodau i anfon manylion at Helen maes o law. Roedd y digwyddiadau hyn wedi'u hanelu at bobl ifainc o 16-25 oed.

Cafwyd trafodaeth a theimlwyd bod hwn yn gyfle da i bobl ifainc.

Camau Gweithredu: Aelodau i ystyried grwpiau priodol o bobl ifainc a rhoi manylion cyswllt i Helen Morgan-Howard.

Cyfeiriodd MB at Gyfarfod Grŵp Hyder a Chydraddoldeb diweddar ble y codwyd y mater o bobl ifainc sy'n ymgeisio am gyrsgiau Coleg. Yn y gorffennol, pan maent wedi derbyn rhybudd, mae'n anodd iddynt gael eu derbyn i'r Coleg oherwydd y rhybudd hwn. Teimlai MB y gallai'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol Pobl Ifainc godi'r materion hyn a gwneud pobl ifainc yn ymwybodol o dderbyn rhybudd ac effaith y rhybuddion hyn yn y dyfodol. Cafwyd trafodaeth a dywedodd y Prif Gwnstabl Dros Dro Roberts y byddai'n werth chweil cysylltu â'r Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion er mwyn bwydo hyn i mewn a gwneud pobl ifainc yn ymwybodol o oblygiadau rhybudd o ran gyrfa yn y dyfodol.

8. Cydraddoldeb Hiliol a Hiliaeth yng Nghymru

Rhoddodd Helen Morgan-Howard drosolwg byr ar yr adroddiad Cydraddoldeb Hiliol Cymru a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2012.

Y neges gyffredinol yn yr adroddiad yw bod hiliaeth dal yn bodoli yng Nghymru ac mae pobl yn addasu iddo drwy newid eu hymddygiad a cheisio bod yn anweladwy, yn arbennig cymunedau mudol sydd wedi symud i Gymru yn y ddeng mlynedd diwethaf. Dywed yr adroddiad bod rhwystrau ieithyddol o ran ymgysylltu â gwasanaethau - nid yn unig yr heddlu, ond iechyd ac addysg – a bod diffyg eglurder o ran riportio troseddau casineb. Hefyd, mae'r adroddiad yn nodi diffyg ffydd yn yr heddlu, a'r rheswm am hynny yw bod yr heddlu dal yn cael ei ystyried fel sefydliad "gwyn" yn bennaf. Yn ogystal, mae defnydd yr heddlu o stopio a chwilio'n tanseilio hyder y cyhoedd, ac mae yna ddiffyg bodlonrwydd o ran sut y mae'r heddlu'n trin cwynion.

Cam Gweithredu: Cytunodd Helen Morgan-Howard i anfon y ddolen i'r adroddiad i aelodau yn dilyn y cyfarfod.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â riportio troseddau casineb neu bryderon ynghylch sut y mae'r heddlu'n cael ei weithredu. Dywedodd y Prif Gwnstabl Dros Dro Roberts bod llwybr ychwanegol bellach ar gyfer riportio pryderon, sef drwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Codwyd materion mewn perthynas ag anawsterau cyfathrebu gan rai pobl. Awgrymodd y Prif Gwnstabl Dros Dro Roberts y dylid defnyddio'r Cynllun Pegasus ac anogodd pobl i ddefnyddio'r cynllun hwn a riportio unrhyw ddiwyddiadau troseddau casineb.

Camau Gweithredu: Tafleddi mewn perthynas â'r Cynllun Pegasus i'w dosbarthu i aelodau ynghyd â dolen ar gyfer mynediad i gyflwyniad. Hefyd, gofynnwyd i'r aelodau i annog pobl i riportio digwyddiadau casineb.

9. Defnyddio Pwerau'r Heddlu i Stopio a Chwilio

Dyweddodd Helen Morgan-Howard bod yr heddlu wedi derbyn arolygiad o ran gwaith Stopio a Chwilio, a rhoddodd drosolwg o ganfyddiadau'r Arolygiad, h.y.:

- Arweinyddiaeth gref ar lefel Uwch Swyddogion (Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Langley, Cadeirydd Gweithgor).
- Strwythur cydraddoldeb ac amrywiaeth cryf ar gyfer craffu ar ddata stopio a chwilio.
- Ymgysylltiad y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol yn y broses stopio a chwilio.
- Un o'r materion gododd yr heddlu â'r tîm Arolygu oedd ansawdd data. Teimlwyd nad oedd yn ddigonol gadarn, ond roedd yr heddlu'n symud ymlaen tuag at ddata electronig ar gyfer dal stop chwiliadau ac roedd yr Arolygwyr yn fodlon â hyn.
- Cynhaliwyd profi realaeth gyda swyddogion, ac ar y cyfan, roedd y tîm yn fodlon bod y swyddogion yn cydymffurfio â'r gyfraith wrth ymgymryd â stop chwiliadau.
- Cytunodd y tîm bod cwmpas ar gyfer ymgynghori ehangach o gwmpas stopio a chwilio gyda chymunedau, a gwnaed gwaith y llynedd gyda'r grwpiau Hyder a Chydraddoldeb o ran sut y mae'r heddlu'n defnyddio'u pwerau i stopio a chwilio, manteision i gymunedau, ac addysgu cymunedau ynglŷn â'u gwaith mewn perthynas â'u hawliau i stopio a chwilio.
- Gofyniad i wella hyfforddiant o gwmpas stopio a chwilio ar gyfer swyddogion sydd â mwy na phum mlynedd o wasanaeth. (Cwmpas i gynnwys aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol mewn hyfforddiant stopio a chwilio h.y. drwy gael mewnbwn i'r hyfforddiant ei hun.)

Gofynnodd Helen Morgan-Howard i'r aelodau roi gwybod iddi am unrhyw grŵp o bobl a fyddai'n hoffi cael rhagor o wybodaeth am stopio a chwilio er mwyn iddi drefnu i gyfarfod â nhw.

Camau Gweithredu: Aelodau i roi manylion cyswllt grwpiau i Helen Morgan-Howard mewn perthynas â gwybodaeth am stopio a chwilio.

Dyweddodd y Prif Gwnstabl Dros Dro Roberts bod gwybodaeth ar gael ar y wefan ynghylch stopio a chwilio mewn perthynas â phwerau a hawliau pobl, ac anogodd aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol i ddarllen y wybodaeth hon.

10. Ymgynghoriad ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol diwygiedig

Rhoddwyd diweddariad yn flaenrol ar y Cynllun Cydraddoldeb Sengl a'r adroddiad blynyddol sydd i'w gyhoeddi cyn hir a fydd yn dangos cynnydd yn erbyn amcanion. Darparodd Helen Morgan-Howard gopi o'r Cynllun i'r aelodau. Mae angen i'r

ddogfen gael ei hadolygu'n flynyddol ac mae hyn yn digwydd ar hyn o bryd. Y blaenoriaethau yw:

1. Sicrhau bod pwerau'r heddlu i stopio a chwilio pobl yn cael eu defnyddio'n gyfreithlon a bod pobl yn deall eu hawliau pan maent yn cael eu stopio a'u chwilio gan yr heddlu.
2. Adnabod ac ymyrryd mewn achosion risg uchel o aflonyddu ar sail anabledd er mwyn atal aflonyddu, cam-drin a thrais rhag dwysáu a diogelu dioddefwyr rhag niwed pellach. (Drwy'r broses MARAC, mae hyn wedi ei dreialu yn Sir Gaerfyrddin ers rhai misoedd, ac yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Rhennir canfyddiadau â heddluoedd eraill yng Nghymru a Llywodraeth Cymru – gyda golwg ar gyflwyno hyn ledled Cymru.)
3. Cynyddu dealltwriaeth pobl o sut i riportio digwyddiadau a throseddau casineb i'r heddlu, yn arbennig digwyddiadau a throseddau casineb sy'n seiliedig ar anabledd.
4. Ymgysylltu â gwasanaethau iechyd meddwl, defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, er mwyn codi ymwybyddiaeth o bwerau ac ymateb yr heddlu mewn achosion iechyd meddwl.
5. Gwneud gwasanaethau plismona'n fwy hygyrch i Sipsiwn a theithwyr sy'n byw ar safleoedd yn yr ardal heddlu.
6. Sefydlu rhaglen dreigl o ymgysylltu â phobl ifainc (16 – 25 oed), gan gynnal 6 digwyddiad "gwybodaeth ac ymgysylltu" y flwyddyn.
7. Gwella gallu staff y Ganolfan Gyfathrebu a swyddogion rheng flaen i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.
8. Darparu cymorth yn y gweithle i swyddogion a staff sy'n dioddef salwch meddwl neu drallod meddwl a lleihau absenoldebau ar sail salwch seicolegol.
9. Rhoi cyfarwyddyd clir, hyfforddiant a chefnogaeth i alluogi rheolwyr i ddarparu addasiadau rhesymol priodol ar gyfer swyddogion a staff anabl.

Camau Gweithredu: Gofynnwyd i'r aelodau gymryd copi o'r ddogfen a rhoi eu barn/sylwadau i Helen Morgan-Howard.

11. Unrhyw Fusnes Arall

- Ymgyrch Nutmeg – NH

Cyfeiriwyd at yr Ymgyrch uchod, lle y mae'r heddlu'n gwirio cronfa ddata o droseddwyr rhyw sydd ar y gofrestr troseddwyr rhyw. Maent yn dod o hyd i'r rhai sydd heb roi sampl DNA ac yn gofyn iddynt am sampl. Oherwydd hyn, yn dechnegol, tynnwyd dynion hoyw a gafodd rhyw o'u gwirfodd yn 16-18 oed, a chyn hynny 16-21 oed (pan oedd yn anghyfreithlon i ddynion hoyw gael rhyw dan 21 oed), oddi ar y

gofrestr troseddwy'r rhyw pan ddaeth rhyw hoyw'n gyfreithlon yn 16 oed gan nad oeddent wedi cyflawni trosedd bellach. Gan fod Ymgyrch Nutmeg yn mynd nôl ac yn profi dynion sydd ar y gofrestr troseddwy'r rhyw, yn dechnegol, ni ddylid gwirio dynion hoyw. Ym Manceinion, daeth nifer o ddynion hoyw ymlaen gan ddweud eu bod wedi derbyn prawf DNA a bod samplau wedi'u cymryd er nad oeddent ar y gofrestr honno. Cyhoeddodd Heddlu Manceinion ddatganiad i'r wasg yn dweud na ddefnyddiwyd Ymgyrch Nutmeg i brofi dynion hoyw. Codwyd cwestiwn o ran pa un a gynhaliwyd y profion hyn yn Nyfed-Powys ac a gafodd unrhyw un ei brofi drwy ddamwain. Dywedodd y Prif Gwnstabl Dros Dro Roberts nad oedd hi'n siŵr, ond roedd y niferoedd yn Nyfed-Powys yn fach o gymharu â heddluoedd eraill. Rhoddodd y Prif Gwnstabl Dros Dro Roberts addewid y byddai adolygiad yn cael ei gynnal gyda Phennaeth CID ar ôl i'r adeg cau fynd heibio ac y byddai'n adrodd nôl i'r Grŵp maes o law.

Camau Gweithredu: Helen Morgan-Howard i symud y mater ymlaen.

- **Aelodaeth o'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol**

Cyfeiriodd NC at berson a oedd wedi gwneud cais aflwyddiannus i ymuno â'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol, gan fynegi ei siom. Dywedwyd wrthi nad oedd yn briodol trafod y rhesymau am y penderfyniad hwn, ond cytunodd Helen Morgan-Howard i gwrdd â hi y tu allan i'r cyfarfod.

- **Cyswllt**

Cyfeiriodd MB at ddigwyddiad lle yr oedd hi wedi cysylltu â'r Ystafell Reoli a chyfeiriwyd ati fel "Mr". Nid oedd hi wedi rhoi ei rhyw i'r gweithredydd, ond cymerodd y gweithredydd yn ganiataol mai Mr ydoedd. Ymddiheurodd y Prif Gwnstabl Dros Dro Roberts wrth MB a dywedodd y byddai hyn yn cael ei fwydo yn ôl at ddibenion hyfforddi yn y dyfodol.

12. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf.

Dyddiad y cyfarfod nesaf i'w gytuno a manylion i'w dosbarthu i aelodau.